Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru


# Symud Cymru Ymlaen

## Amcanion Llesiant Llywodraeth Cymru (2016)

Tachwedd 2016

llyw.cymru

# Nodau Llesiant




"Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn gyfle i weithio mewn ffordd wahanol ac ymwneud ag eraill i ddatblygu atebion arloesol i'r heriau sy'n ein hwynebu".

**Llywodraeth Cymru**
***Symud Cymru Ymlaen (2016)***

OGL WG30198 © Hawlfraint y Goron 2016, Llywodraeth Cymru, Digidol ISBN 978-1-4734-8013-1

# Rhagair

Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth wneud penderfyniadau, a hynny er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn awr ac yn y tymor hir. Rydym yn cydnabod bod defnyddio'r Ddeddf yn effeithlon i wneud Cymru'n fwy cynaliadwy yn golygu gwneud pethau'n wahanol. Wnaiff hynny ddim digwydd dros nos; mae'n gofyn am newid sylweddol yn y ffordd rydym yn mynd i'r afael â'r problemau ystyfnig sy'n wynebu'n cymunedau – problemau sydd, yn aml, yn rhai cymhleth, tymor hir y bydd angen nifer o bartneriaid i weithio gyda'i gilydd i'w datrys.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi pobl pan fydd ei angen arnynt fwyaf ac ar roi'r modd i'n gwasanaethau cyhoeddus ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau a ddaw yn sgil yr ansicrwydd gwleidyddol, ariannol ac amgylcheddol presennol.

Rhaid wrth ffyrdd newydd o weithio i fynd i'r afael â'r problemau sy'n ein hwynebu. Mae'r Ddeddf newydd hon yn rhoi mantais inni yng Nghymru a fydd yn ein helpu â'r newid sydd ei angen. Mae'n rhoi cyfle inni weithio'n wahanol wrth gynnal ein Rhaglen Lywodraethu. I'n tywys wrth roi *Symud Cymru Ymlaen* ar waith, rydym wedi datblygu pedwar ar ddeg o amcanion llesiant a fydd yn sylfaen ar gyfer datblygu'r pedair strategaeth genedlaethol drawsbynciol.

Mae'r amcanion llesiant hyn wedi'u paratoi yng nghyd-destun y newid mawr a'r ansicrwydd a ddaeth yn sgil penderfyniad y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd. Dyma gamau cyntaf taith hwy o welliannau parhaus i Lywodraeth Cymru wrth iddi geisio gwireddu hanfod y Ddeddf. Bydd cyrff cyhoeddus eraill ledled Cymru yn cyd-gerdded â hi ar y daith honno.

Caiff yr amcanion llesiant eu cloriannu ymhellach wrth inni ddatblygu ein pedair strategaeth genedlaethol drawsbynciol. Wrth wneud hynny, byddwn yn gofyn am gyfranogiad pobl yn eu cymunedau ac yn cydweithio hefyd â chyrff cyhoeddus, busnesau a'n partneriaid cyflawni. Trwy edrych at y tymor hir, gweithio mewn ffordd integredig ac ataliol, a thrwy sicrhau cyfranogaeth eraill a gweithio gyda nhw, gallwn ddeall yn well sut y gallwn wneud y mwyaf o'n cyfraniad at wireddu'r nodau llesiant dros dymor y Cynulliad hwn.

Mae pum mlynedd dyngedfennol o'n blaenau. Rydym am weithio'n greadigol gyda'n partneriaid ledled Cymru i gael hyd i atebion i'r heriau sy'n ein hwynebu ac i wneud y gorau o'r cyfleoedd a all ein helpu i gynyddu'n heffaith yn yr amserau ansicr hyn. Bydd y ffyrdd newydd o weithio a'r saith nod llesiant sy'n ganolog i'r Ddeddf yn parhau i lywio'r ffordd y cynhelir rhaglen y Llywodraeth hon ac yn cyfrannu at greu'r Cymru a garem.

**Mark Drakeford**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**

# 1. Cyflwyniad

**1.1** Yn *Symud Cymru Ymlaen*, rydym wedi pennu'r pedwar maes lle gall Llywodraeth Cymru wneud y gwahaniaeth mwyaf i bobl Cymru, yn awr ac yn y dyfodol. Ein hamcan yw creu Cymru sy'n:

**– Ffyniannus a diogel;**

**– Iach ac egnïol;**

**– Uchelgeisiol sy'n dysgu;**

**– Unedig a chysylltiedig.**

**1.2** Yn y pedwar maes hwn y gallwn gyfrannu fwyaf at saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), ('y Ddeddf' fel y cyfeirir ati) i wneud Cymru'n wlad lewyrchus, gydnerth, iachach, fwy cyfartal sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang ac sydd â chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r iaith yn ffynnu. Y pedwar maes hwn yw'r sylfaen ar gyfer ein holl nodau llesiant.

**1.3** Diben hyn yw cadw Cymru ar lwybr datblygu cynaliadwy - proses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy weithredu yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'n ffordd o wneud pethau sy'n ein tywys ni a chyrff cyhoeddus penodol eraill i wneud penderfyniadau mewn ffordd fwy integredig a chydweithredol sy'n rhoi ystyriaeth i'r tymor hir ac sy'n gweithio drwy'r amser i atal problemau.

**1.4** Nid ni yn unig sy'n ceisio gwneud pethau'n wahanol. Ar 1 Ionawr 2016, dechreuodd y byd roi Agenda Datblygu Cynaliadwy 2030 ar waith – cynllun gweithredu trawsnewidiol sy'n seiliedig ar un deg saith Nod Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig – i fynd i'r afael â heriau mawr y byd dros y 15 mlynedd nesaf. Bydd Cymru'n cyfrannu at wireddu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy hyn trwy'r Ddeddf newydd.

**1.5** Cyhoeddi *Symud Cymru Ymlaen* oedd y cam cyntaf mewn proses a fydd yn ein gweld yn gweithio mewn ffordd wahanol i wireddu hanfod y Ddeddf. Mae'n ddechrau ar gyfnod lle byddwn yn ystyried yn fanylach sut y gallwn fynd ati, trwy gydweithio a chyfranogi, i wireddu ein blaenoriaethau mewn ffordd gynaliadwy.

**1.6** I'n helpu yn hyn o beth, byddwn yn datblygu pedair strategaeth genedlaethol drawsbynciol, Ffyniannus a Diogel, Uchelgais a Dysgu, Iach ac Egnïol ac Unedig a Chysylltiedig, gan adlewyrchu pedwar maes *Symud Cymru Ymlaen*. Bydd hyn yn caniatáu inni ystyried sut i gynyddu effaith popeth a wnawn, gan ddefnyddio'r strategaethau fel cyfle ymarferol a real i'n helpu i roi'r Ddeddf ar waith a byw ei hanfod.

**1.7** Mae'r ddogfen hon yn ymateb i'r dyletswyddau sydd ar Weinidogion Cymru o dan adran 3(2)(a) a 7 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n rhestru'r amcanion llesiant cychwynnol i'n helpu i wneud y mwyaf o'n cyfraniad at y saith nod llesiant a nodir yn y Ddeddf. Mae'n cynnwys hefyd y

materion sy'n ofynnol o dan y Ddeddf i esbonio sut y cawsant eu datblygu, gan gynnwys y camau cychwynnol y byddwn yn eu cymryd i'w rhoi ar waith. Cyhoeddir y camau cychwynnol hyn at ddiben adran 3(2)(a) a 7 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## 2. Gwneud y mwyaf o'n cyfraniad at y saith nod llesiant cenedlaethol – ein hamcanion llesiant

**2.1** Rydym wedi datblygu pedwar ar ddeg o amcanion llesiant sy'n adlewyrchu'n dyhead am newid yn y tymor hir. Maent wedi'u cynllunio i adlewyrchu'r prif flaenoriaethau ar gyfer gwella ein heconomi, ein cymdeithas, ein hamgylchedd a'n diwylliant. Maent yn dechrau'r sgwrs ynghylch sut y gallwn wneud y gorau posib o gyfraniad y llywodraeth at gyflawni'r saith nod llesiant.

**2.2** Mae ein hamcanion llesiant yn seiliedig ar y pedwar maes yn *Symud Cymru Ymlaen*, ac yn datblygu'r gwaith cychwynnol a wnaed ar y pedair strategaeth drawsbynciol gyfatebol. Maent yn adlewyrchu'r meysydd sydd wedi'u datganoli inni o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 lle gallwn ddefnyddio'n pwerau a'n dylanwad i helpu i wireddu'r saith nod llesiant. Y rhain yw'r meysydd a fydd yn ein galluogi i ganolbwyntio ar wneud gwahaniaeth i bawb, ym mhob cam o'u bywydau, waeth ble maen nhw'n byw na beth yw eu cefndir na'u hamgylchiadau.

**2.3** Mae nodau llesiant Cymru wedi'u cynllunio i rychwantu'r cenedlaethau ond mae ein hamcanion llesiant cychwynnol yn para'r cyfnod 2016-2021. Bydd cyflawni'r rhain yn ganolog i'n strwythurau llywodraethu, ein mentrau a'n prosesau llunio polisïau – a chyhoeddir adroddiad ar hynny bob blwyddyn. Bydd pob amcan yn cyfrannu at yr holl nodau neu at nifer ohonynt, a byddwn yn eu hadolygu wrth i heriau a chyfleoedd yr ansicrwydd ariannol a gwleidyddol presennol amlygu eu hunain.

**2.4** Y pedwar ar ddeg amcan llesiant fydd sylfaen ein pedair strategaeth drawsbynciol. Drwyddynt gallwn wneud y mwyaf o'r hyn y gellir ei wneud ac adlewyrchu natur gysylltiedig yr amcanion llesiant. Bydd y pedair strategaeth drawsbynciol yn caniatáu inni ystyried ein cyfraniad at yr holl nodau llesiant ymhellach a rhoi llwyfan lle gall partneriaid cyflawni, partneriaid ehangach, busnesau, cymunedau a phobl y bydd ein penderfyniadau'n effeithio arnynt i gyd gymryd rhan. Mae manylion ein hamcanion llesiant i'w gweld yn Atodiad A, sy'n nodi hefyd y nodau llesiant y bydd pob amcan yn gallu cyfrannu fwyaf ato. Asesiad cychwynnol yw hwn a chaiff ei bwyso a'i fesur yn ehangach wrth i'r strategaethau gael eu datblygu.

## Camau

**2.5** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion llesiant a gweithio at wireddu'r nodau llesiant yn nhymor y llywodraeth hon. Datblygu'r pedair strategaeth fydd y cam cyntaf ar gyfer gwireddu ein hamcanion llesiant. Bydd y gwaith hwnnw'n esgor ar y llywodraethiant ar gyfer ein helpu i'w gwireddu ac yn gwneud yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn rhan hyd yn oed yn fwy annatod o'r gwaith. Bydd y gwaith o ddatblygu'r strategaethau yn cynnwys asesiad dyfnach ac ehangach o effeithiau polisïau presennol ac yn dod i gasgliadau ehangach ynghylch lle mae angen inni wneud pethau'n wahanol. Bydd hyn yn penderfynu ar ffurf y camau manwl sydd eu hangen i wireddu ein hamcanion llesiant.

**2.6** Wrth ddatblygu'r strategaethau, yr ystyriaeth ganolog fydd penderfynu ar y materion craidd, datblygu ffyrdd o rwystro problemau a chael hyd i atebion arloesol a chynaliadwy ym mhob rhan o'r Llywodraeth, y gellir eu cyflawni yn ystod tymor y Llywodraeth hon. Y strategaethau fydd y catalydd ar gyfer cynlluniau cyflawni mwy cydweithredol a fydd yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng anghenion heddiw ac yfory. Byddant wedi'u hintegreiddio ar draws y Llywodraeth a'r gwasanaethau cyhoeddus ehangach.

**2.7** Ceisio torri'r cylch anfantais ac anghydraddoldeb fydd sail popeth a wnawn o hyd, fel bod y ffordd y llywodraethwn yn cael yr effaith fwyaf effeithiol ar wneud ein cymdeithas yn decach a mwy cynhwysol.

## Pum ffordd o weithio

**2.8** Bydd y pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf yn dangos sut y bydd cyrff cyhoeddus yn gallu gwneud y mwyaf o'u cyfraniad at wireddu'r saith nod llesiant. Maent wedi'u defnyddio i lunio pedwar ar ddeg amcan llesiant Llywodraeth Cymru:

### Integreiddio

Mae'r amcanion llesiant yn gysylltiedig â'i gilydd. Mae llawer ohonynt yn ymwneud â gwahanol agweddau ar gwrs bywyd, gan helpu pobl ym mhob cam o'u bywydau. Mae sawl un yn seiliedig ar le, gan ymateb i bwysigrwydd llesiant pobl a llesiant y cymunedau y maent yn rhan ohonynt a chan wneud cyfraniad Cymru fel gwlad fach ar lwyfan y byd yn weladwy. Fel set o amcanion, byddant yn datblygu'r cynnydd at lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, trwy ein galluogi i weithredu'n fwy cynaliadwy wrth inni gloriannu ein prif benderfyniadau ynghylch ein hamcanion llesiant. Bydd ein penderfyniad i ddatblygu pedair strategaeth genedlaethol drawsbynciol, gan weithio ar draws portffolios ac adrannau Gweinidogion, yn datblygu'r ffordd integredig o gyflawni ym mhopeth a wnawn. Bydd hynny'n cynyddu effaith ein gweithredoedd ar y cyd.

### Atal

Mae ein hamcanion llesiant wedi'u cynllunio i rwystro problemau rhag codi neu waethygu. Y rhain yw'r meysydd lle mae angen inni weithio gyda phartneriaid i chwalu rhwystrau, canolbwyntio ar y pontio rhwng gwasanaethau a deall anghenion cyfnewidiol pobl trwy gamau bywyd, yn awr ac yn y dyfodol, pa le bynnag y maent yn byw yng Nghymru.

## Cydweithio

## Cynnwys

Ni fu'n bosib sicrhau mwy o gydweithio na chynnwys mwy o bobl yn y trafodaethau ynghylch sut y byddwn yn gwireddu ein hamcanion. Roedd yr amserlen yn dynn oherwydd bod penderfyniad y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd wedi achosi oedi cyn cyhoeddi *Symud Cymru Ymlaen*. Rydym wedi ymrwymo i wneud pethau'n iawn o hyd ac i brofi'n llawn ein hamcanion llesiant wrth ddatblygu ein pedair strategaeth genedlaethol drawsbynciol. Trwy bennu'n bendant mor fuan â hyn yr amcanion llesiant mewn ffordd sy'n rhwymo neu'n cyfyngu ar y strategaethau hyn, collir hanfod y Ddeddf a byddai perygl i ddatblygu cynaliadwy fynd yn 'atodiad'. Felly, er mwyn cadw at ein hymrwymiad i ymgysylltu'n llawn â'r bobl, a'u cynnwys, byddwn yn adolygu ein hamcanion o dan adran 8(5) y Ddeddf wrth inni ddatblygu ein strategaethau cenedlaethol.

## Hirdymor

Mae'r amcanion llesiant hyn yn ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau tymor hir sy'n wynebu Cymru, fel ag y'u disgrifir yn *Symud Cymru Ymlaen*. Maent yn adlewyrchu cyd-destun heddiw o gyni parhaus, ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd a sut i reoli'r galw cynyddol am wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig o gofio bod y boblogaeth yn heneiddio ac yn tyfu. Bydd newidiadau eraill yn siapio'n dyfodol hefyd, gan gynnwys hinsawdd sy'n newid, arloesi technegol, yr ymdrech i gau'r bwlch rhwng y tlotaf a'r cyfoethocaf a gwneud cymdeithas yn decach, tra'n deall beth allai'n hanghenion ni fod yn y dyfodol. Mae'r amcanion llesiant wedi'u drafftio i'n helpu i wireddu'r cyfleoedd ac wynebu'r heriau.



# Ein hamcanion llesiant

1. Creu’r amodau a all roi’r dechrau gorau posibl i fywyd pob plentyn.

2. Gwella deilliannau addysg i bawb a lleihau’r bwlch rhwng deilliannau gwahanol grwpiau.

3. Helpu pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol a hybu gweithlu iach.

4. Cynyddu ffyniant i bawb ledled Cymru, gan helpu pobl i gael gwaith a chynnal swyddi.

5. Creu’r amodau i bobl allu dysgu a defnyddio’r Gymraeg gyda’u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gwaith.

6. Cefnogi’r broses o newid i fod yn gymdeithas garbon isel a all ymaddasu i’r newid yn yr hinsawdd.

7. Cysylltu cymunedau drwy gyfrwng seilwaith gynaliadwy, gadarn.

8. Cefnogi cymunedau diogel, cydlynus a chadarn.

9. Ei gwneud yn haws cael cartrefi diogel, effeithlon a fforddiadwy.

10. Meithrin amodau ar gyfer datblygiad economaidd cynaliadwy a swyddi cynaliadwy, gan ysgogi arloesedd a thwf er mwyn sicrhau economi fodern, garbon isel.

11. Hyrwyddo a meithrin diwylliant a threftadaeth Cymru.

12. Rheoli, defnyddio a gwella adnoddau naturiol Cymru i gefnogi llesiant hirdymor.

13. Hwyluso gwasanaethau cyhoeddus safonol, ymatebol a mwy integredig, yn enwedig i’r rheini sydd eu hangen fwyaf, gan drin y dinesydd fel partner cydradd.

14. Sefydlu Cymru fel gwlad uchelgeisiol sy’n edrych tuag allan ac sy’n ymwneud â’r byd ehangach.

# 3. Gweithio mewn ffordd wahanol

**3.1** Rydyn ni wedi gwneud gwelliannau i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n ymgorffori'r pum ffordd o weithio sy'n ganolog i'r Ddeddf, ac rydyn ni'n parhau i wneud hynny. Bydd y gwaith i ddatblygu strategaethau yn gosod sail gadarn i'r ffyrdd hyn o weithio ac yn sicrhau eu bod yn cael eu cynnal yn y modelau cyflawni dilynol. Ein cam nesaf ni fydd rhoi hyn ar waith.

**3.2** Roedd ein gwaith wrth baratoi ar gyfer y Ddeddf ac ymwreiddio'r pum ffordd o weithio sy'n rhan o'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy yn canolbwyntio ar y canlynol:


- Sicrhau bod cysylltiad effeithiol rhwng y nodau, rhaglen y llywodraeth, y strategaethau a'r dull o gyflawni. Mae'r amcanion llesiant yn pontio *Symud Cymru Ymlaen* â'r pedair strategaeth drawsbynciol.
- Cynnig arweiniad i'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.
- Gweithio gyda'n partneriaid cyflawni i ddatblygu dulliau sy'n fwy cydweithredol ac arloesol.
- Galluogi pobl i fabwysiadu'r ffyrdd o weithio sydd yn y Ddeddf ac i weithio fel un gwasanaeth cyhoeddus drwy arddel gwerthoedd ac ymddygiadau un gwasanaeth cyhoeddus Cymru.
- Datblygu polisïau, defnyddio tystiolaeth a chynnig cyngor sy'n arwain at wneud gwell penderfyniadau. Bydd y penderfyniadau hyn yn sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion y tymor hir a'r tymor byr, yn atal problemau ac yn ystyried sut mae'r nodau llesiant yn cydgysylltu.
- Cynllunio ein gwaith yn gyson drwy ddefnyddio cynlluniau busnes ein grwpiau a'n hadrannau fel ein bod yn cydymffurfio'n well â'r amcanion llesiant; dadansoddi a dysgu o heriau wrth gyflawni er mwyn rhwystro problemau rhag codi yn y dyfodol, a sylwi a manteisio ar gyfleoedd i integreiddio.
- Rheoli perfformiad ein staff fel adnodd allweddol er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein blaenoriaethau strategol ac yn cyrraedd y nodau llesiant.

**3.3** Wrth ddatblygu Cyllideb Ddrafft 2017-18, fe wnaethom ni fabwysiadu'r pum ffordd o weithio er mwyn gweld i ba raddau yr oedd ein cynigion o ran gwariant yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf. Drwy gyhoeddi cynlluniau refeniw blynyddol a chyllidebau cyfalaf pob pedair blynedd rydym wedi ceisio dod o hyd i gydbwysedd rhwng buddiannau hirdymor a byrdymor cenedlaethau'r dyfodol, drwy ddefnyddio'r dulliau sydd ar gael mor effeithiol â phosib er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl Cymru a'r gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r gyllideb ddrafft yn cynyddu'r swm gaiff ei fuddsoddi ym maes iechyd a llesiant, mae'n cefnogi ein

prif flaenoriaethau o ran y gwasanaethau cyhoeddus, ac yn sicrhau ein bod yn parhau i fuddsoddi yn ffyniant y dyfodol gyda seilwaith newydd hanfodol. Bydd y gwaith ar ein strategaethau arfaethedig, sydd wedi'u seilio ar ein hamcanion llesiant, yn dylanwadu ar ein cynlluniau ar gyfer y gyllideb yn y dyfodol.

**3.4** Mae'r systemau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir i lywio a rheoli Llywodraeth Cymru yn chwarae rôl bwysig wrth roi'r Ddeddf ar waith. Mae'r ddogfen 'Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2015-16' yn cynnwys gwybodaeth am y broses lywodraethu o fewn Llywodraeth Cymru a'n camau wrth baratoi ar gyfer y Ddeddf.

# Atodiad - Amcanion llesiant – y sail resymegol




## 1. Creu'r amodau a all roi'r dechrau gorau posibl i fywyd pob plentyn.

### Nodau Llesiant


• Cymru lewyrchus • Cymru gydnerth • Cymru iachach • Cymru sy'n fwy cyfartal
• Cymru o gymunedau cydlynus • Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

### Strategaethau

• Ffyniannus a Diogel • Iach ac Egnïol • Uchelgais a Dysgu • Unedig a Chysylltiedig

### Sail resymegol

Mae profiadau cynnar plentyndod yn hanfodol bwysig i ddatblygiad plant yn y tymor hir ac i'r hyn y byddant yn ei gyflawni gydol eu bywydau. Cydnabyddir hyn yn rhyngwladol, ac mae tystiolaeth gadarn yn sail iddo. Mae sicrhau bod plant yn cyrraedd cerrig milltir pwysig wrth ddatblygu yn sylfaenol bwysig, nid yn unig o ran eu cyrhaeddiad a'u dyfodol galwedigaethol, ond hefyd o ran eu hiechyd a'u llesiant pan fyddant yn oedolion. Ceir tystiolaeth helaeth bod eu datblygiad plant yn ystod pum mlynedd gyntaf eu bywyd yn dylanwadu'n gryf ar eu cyfleoedd mewn bywyd. Gyda'i gilydd, mae cefndir y teulu, addysg gan y rhieni, y modd y caiff plant eu magu a'r cyfleoedd i ddysgu a datblygu yn y blynyddoedd tyngedfennol hynny yn bwysicach i blant nag arian wrth benderfynu a fyddant yn cyflawni eu potensial.




# 2. Gwella deilliannau addysg i bawb a lleihau'r bwlch rhwng deilliannau gwahanol grwpiau

## Nodau Llesiant


• Cymru lewyrchus • Cymru gydnerth • Cymru iachach • Cymru sy'n fwy cyfartal
• Cymru o gymunedau cydlynus • Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

## Strategaethau

• Ffyniannus a Diogel • Uchelgais a Dysgu

## Sail resymegol

Addysg yw un o'r dulliau gorau sydd gennym yn y tymor hir ar gyfer gwella cyfleoedd bywyd disgyblion o gefndiroedd incwm isel a disgyblion a chanddynt nodweddion gwarchodedig. Mae'n cyfrannu at roi diwedd ar anfantais ac anghydraddoldeb, ac yn sylfaenol bwysig hefyd i ddyfodol ein heconomi. Mae gan ysgolion gyfraniad pwysig i'w wneud wrth hyrwyddo dysgu cymdeithasol ac emosiynol, gan roi hwb i amrywiaeth o sgiliau a hanfodion cadarnhaol bywyd a mynd i'r afael â phroblemau emosiynol a phroblemau ymddygiad. Er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl yn y dyfodol, mae angen inni wella'r deilliannau i bawb, gan leihau'r gwahaniaethau yn neilliannau gwahanol grwpiau.




# 3. Helpu pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol a hybu gweithlu iach

## Nodau Llesiant

• Cymru lewyrchus • Cymru gydnerth • Cymru iachach • Cymru sy'n fwy cyfartal
• Cymru o gymunedau cydlynus

## Strategaethau


• Ffyniannus a Diogel • Iach ac Egnïol

## Sail resymegol

Mae byw bywydau iach ac annibynnol yn ein galluogi i gyflawni ein potensial, i gyflawni ein dyheadau addysgol, ac i gyfrannu'n llawn at economi a chymdeithas Cymru. Er mwyn diwallu anghenion sy'n newid ymysg y boblogaeth, a chau'r bwlch yng nghanlyniadau iechyd ein cymunedau, mae'n rhaid meithrin gwydnwch yr holl boblogaeth wrth inni ganolbwyntio ar y bobl a chanddynt yr anghenion iechyd mwyaf a'r canlyniadau iechyd gwaethaf.

Mae helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu ffordd iach o fyw yn ystod eu blynyddoedd ffurfiannol yn hanfodol i'w bywydau'n ddiweddarach. Er mwyn rhoi hwb i lesiant cyffredinol pobl drwy eu bywydau, mae'n rhaid hyrwyddo dewisiadau a ffyrdd iach o fyw, gan ymyrryd i atal afiechyd ac annog pobl i fod yn fwy egnïol. Mae helpu pobl i gael swyddi cynaliadwy a threchu afiechyd meddwl yn y gweithle yn golygu bod modd i swyddi a thwf wneud mwy o gyfraniad wrth roi'r cymorth y mae ei angen ar bobl. Er mwyn diwallu anghenion pobl hŷn, mae gofyn gweithio gyda chymunedau er mwyn helpu'r boblogaeth i aros yn iach wrth heneiddio.

Mae gofyn ymateb mewn amryw o ffyrdd rhwng genedigaeth a henaint, gan roi'r iechyd a'r llesiant gorau posibl i bobl drwy ymgorffori ffyrdd iach o fyw yn ein holl raglenni, gan weithio ym mhob rhan o'r Llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus, a chan sicrhau bod rhoi sylw i iechyd yn ganolog i bopeth a wnawn.




# 4. Cynyddu ffyniant i bawb ledled Cymru, gan helpu pobl i gael gwaith a chynnal swyddi

## Nodau Llesiant


• Cymru lewyrchus • Cymru gydnerth • Cymru sy'n fwy cyfartal • Cymru o gymunedau cydlynus
• Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Strategaethau

• Ffyniannus a Diogel • Uchelgais a Dysgu • Unedig a Chysylltiedig

## Sail resymegol

Mae'n hanfodol cynyddu'r nifer o bobl sydd ar gael i weithio er mwyn trechu tlodi a lleihau anghydraddoldeb. Cydnabyddir yn helaeth fod helpu pobl i weithio yn cael effaith aruthrol ar eu hiechyd a'u gallu i fod yn rhan o gymdeithas bob dydd. Mae helpu pobl i aros mewn swyddi sefydlog a chynnal swyddi yn y tymor hir yn lleihau'r siawns y byddant yn wynebu diweithdra a thlodi. Drwy ganolbwyntio ar leihau nifer y bobl sydd â sgiliau ar y lefel is, a thrwy fuddsoddi yn natblygiad cynnar plant, gallwn gyfrannu at wella ein canlyniadau economaidd yn y tymor hir, yn ogystal â mynd i'r afael ag anfantais a hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol. Er mwyn cael yr effaith fwyaf, gwyddom hefyd fod yn rhaid inni fanteisio ar y gwahaniaethau rhanbarthol yn ein heconomi, gan sicrhau ein bod yn effro i anghenion amrywiol ardaloedd a chymunedau, er mwyn creu cyfoeth a chyfleoedd gwaith.




## 5. Creu'r amodau i bobl allu dysgu a defnyddio'r Gymraeg gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gwaith

### Nodau Llesiant

• Cymru lewyrchus • Cymru sy'n fwy cyfartal • Cymru o gymunedau cydlynus
• Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu • Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang


### Strategaethau

• Ffyniannus a Diogel • Uchelgais a Dysgu • Unedig a Chysylltiedig

### Sail resymegol

Mae'r Gymraeg yn sylfaenol bwysig i ddiwylliant a hunaniaeth Cymru fel gwlad sy'n falch o fod yn ddwyieithog, ac mae cyfraniad yr iaith i'n gorffennol, i'n hanes ac i'n diwylliant byw yn un sylweddol. Yn ganolog i'n huchelgais i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae angen i'r iaith dyfu er mwyn iddi fod yn rhan lewyrchus a byw o'n cymunedau er budd cenedlaethau'r dyfodol. Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg, ac mae datblygu iaith ym more oes yn rhoi sylfaen i feithrin sgiliau iaith yn ddiweddarach, a hynny yn y cartref a thrwy ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar. Mae gan y system addysg gyfraniad hollbwysig i'w wneud wrth ddatblygu sgiliau iaith pob dysgwr a thrwy ymgorffori'r Gymraeg yn rhan o broses ddysgu ystyrlon, er mwyn galluogi dysgwyr i ddod yn rhugl.

Gwyddom fod cysylltiad clir rhwng rhuglder a pha mor aml y bydd pobl yn defnyddio'r Gymraeg, ac na all addysg a hyfforddiant ynddynt eu hunain warantu y bydd siaradwyr yn dod yn rhugl yn y Gymraeg, nac yn dewis defnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd, gartref, yn y gweithle ac yn eu cymunedau'n ehangach. Gwyddom hefyd, wrth ymateb i boblogaeth sy'n newid, y bydd yr anghenion yn wahanol ledled Cymru.




# 6. Cefnogi'r broses o newid i fod yn gymdeithas garbon isel a all ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd

## Nodau Llesiant


• Cymru lewyrchus • Cymru gydnerth • Cymru iachach • Cymru sy'n fwy cyfartal
• Cymru o gymunedau cydlynus • Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Strategaethau

• Ffyniannus a Diogel • Iach ac Egnïol • Uchelgais a Dysgu • Unedig a Chysylltiedig

## Sail resymegol

Yn wyneb globaleiddio cynyddol, technoleg newydd a'r angen i ymateb i hinsawdd sy'n newid, mae gofyn gwneud pethau'n wahanol drwy ganolbwyntio ar dwf cynaliadwy ac economi carbon isel sydd hefyd o fudd i'n llesiant cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol. Ceir consenswS gwyddonol hynod gryf fod dyn wedi achosi newid yn yr hinsawdd ac ynghylch yr effeithiau eang sylweddol a di-droi'n-ôl sy'n debygol o ddeillio o hyn. Mae'r effeithiau ar bobl, cymunedau a'r amgylchedd yn debygol o gael eu gwasgaru'n anwastad, ac yn gyffredinol pobl a chymunedau dan anfantais sy'n eu teimlo fwyaf. Ceir momentwm ac ymrwymiad rhyngwladol cynyddol tuag at greu cymdeithas garbon isel er mwyn cyrraedd targedau ar newid yn yr hinsawdd a nodau datblygu cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig. Ceir tystiolaeth gynyddol hefyd sy'n dangos y gall y cenhedloedd hynny sy'n gweithredu'n gyflym elwa a manteisio ar y cyfleoedd sy'n dod law yn llaw â thwf gwyrdd. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod angen canolbwyntio ar lifogydd a'r risg y mae newidiadau i'r arfordir yn ei hachosi i gymunedau, busnesau a seilwaith, gan fynd i'r afael â'r risgiau i iechyd, llesiant a lefelau cynhyrchiant. Drwy fuddsoddi yn ein seilwaith a dylanwadu arno, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni wrth adeiladu tai a rhoi cymorth i ddatblygu dulliau adnewyddadwy o greu ynni, gwyddom y gallwn gael yr effaith fwyaf posibl.




# 7. Cysylltu cymunedau drwy gyfrwng seilwaith gynaliadwy, gadarn


• Cymru lewyrchus • Cymru gydnerth • Cymru iachach • Cymru sy'n fwy cyfartal
• Cymru o gymunedau cydlynus • Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
• Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Strategaethau

• Unedig a Chysylltiedig

## Sail resymegol

Ein dylanwad dros sut y buddsoddir yn ein seilwaith, a sut y defnyddir y seilwaith hwnnw, yw un o'r dulliau pwysicaf sydd gennym er mwyn cyflawni ein nodau a chreu pobl, cymunedau, economi ac amgylchedd ehangach sy'n gadarn. Ceir rhesymau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol cryf dros wella seilwaith Cymru, a'r rheini'n cynnwys newid yn yr hinsawdd, addasu i dechnolegau newydd, natur y boblogaeth a sut y mae'r seilwaith yn cyfrannu at fanteision ehangach sy'n ymwneud ag iechyd a thlodi. Mae creu cymunedau sydd wedi'u 'cysylltu'n dda' yn galluogi pobl i gyfathrebu a symud o fan i fan yn rhwydd, yn gynaliadwy ac yn rhad. Mae hyn hefyd yn hwb i dwf economaidd. Drwy roi dull integredig ar waith a chysoni strategaethau ym maes tai, trafnidiaeth, TGCh, addysg, iechyd, atal llifogydd, gwastraff a seilwaith ynni, gwyddom y gallwn sicrhau'r manteision hyn yn well. Mae hyn yn cynnwys creu systemau trafnidiaeth cynaliadwy, cefnogi datblygiadau i greu ynni adnewyddadwy, ateb anghenion sy'n newid yn sgil y rhyngrwyd a newidiadau eraill i dechnoleg, parhau i fuddsoddi mewn gwaith ar amddiffynfeydd rhag llifogydd, a chymryd rhagor o gamau i reoli dŵr yn well yn ein hamgylchedd.




# 8. Cefnogi cymunedau diogel, cydlynus a chadarn

## Nodau Llesiant


• Cymru lewyrchus • Cymru gydnerth • Cymru iachach • Cymru sy'n fwy cyfartal
• Cymru o gymunedau cydlynus • Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

## Strategaethau

• Ffyniannus a Diogel • Iach ac Egnïol • Uchelgais a Dysgu • Unedig a Chysylltiedig

## Sail resymegol

Mae'r dystiolaeth yn dweud wrthym fod nodweddion ffisegol a chymdeithasol y mannau lle mae pobl yn byw, yn gweithio ynddynt ac yn ymweld â hwy yn dylanwadu'n drwm ar eu llesiant personol. Mae hyn yn golygu cymunedau braf sydd wedi'u cysylltu'n dda ac yn llawn addewid, a mannau sy'n ffynnu lle mae pobl yn ymwneud â'i gilydd ac yn cyd-dynnu'n dda. Gwyddom fod gan bobl a chymunedau ledled Cymru wahanol anghenion, ac mae angen ymateb yn wahanol wrth eu cefnogi pan fydd angen y gefnogaeth honno fwyaf arnynt. Mae hyn yn cynnwys lleihau profiadau sy'n niweidiol yn ystod plentyndod, rheoli pethau'n well wrth i bobl bontio o fewn a rhwng gwasanaethau cyhoeddus yn ystod eu bywydau, ynghyd â helpu cymunedau i baratoi at hinsawdd sy'n newid. Gwyddom fod mynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn bwysig er mwyn creu cymunedau diogel a chydlynus. Mae creu gweithgarwch economaidd amrywiol mewn cymunedau yn eu helpu i fod yn fwy cadarn. Os yw pobl yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn lleol, gwyddom fod hynny'n gwella'u hymdeimlad o lesiant.




# 9. Ei gwneud yn haws cael cartrefi diogel, effeithlon a fforddiadwy

## Nodau Llesiant


• Cymru lewyrchus • Cymru gydnerth • Cymru iachach • Cymru sy'n fwy cyfartal
• Cymru o gymunedau cydlynus • Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
• Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Strategaethau

• Ffyniannus a Diogel • Unedig a Chysylltiedig

## Sail resymegol

Gall gwella'r cyfleoedd i gael cartrefi diogel, effeithlon a fforddiadwy arwain at nifer o ganlyniadau da. Mae'r dystiolaeth yn dangos yn gyson y gall amgylchiadau byw gwael effeithio'n ddrwg ar iechyd corfforol a meddyliol pobl. Mae gwella'r cyfleoedd i gael cartrefi fforddiadwy a gwella cyflwr tai yn help i drechu tlodi, yn gwella iechyd a llesiant, ac yn gymorth i leihau anghydraddoldebau iechyd. Drwy wella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi, gallwn helpu pobl i gadw'u cartrefi'n gynnes a chyfrannu ar yr un pryd at ein hymrwymiadau i leihau carbon er mwyn lliniaru ar effeithiau newid yn yr hinsawdd. Drwy fuddsoddi mewn tai gallwn roi hwb i'r economi. Gwyddom fod poblogaeth sy'n heneiddio, yn tyfu ac yn newid yn rhoi'r her o sicrhau bod tai ar gael sy'n ateb yr anghenion newydd hyn.




# 10. Meithrin amodau ar gyfer datblygiad economaidd cynaliadwy a swyddi cynaliadwy, gan ysgogi arloesedd a thwf er mwyn sicrhau economi fodern, garbon isel

## Nodau Llesiant

• Cymru lewyrchus • Cymru gydnerth • Cymru sy'n fwy cyfartal
• Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu • Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Strategaethau


• Ffyniannus a Diogel • Uchelgais a Dysgu • Unedig a Chysylltiedig

## Sail resymegol

Nid yn unig y gall arloesi wella perfformiad economaidd a helpu Cymru i gyfrannu ar lefel fyd-eang; drwy gydweithio a rhannu gwybodaeth gallwn ddefnyddio adnoddau'n effeithlon a helpu i greu cyfoeth a llewyrch i bawb. Gwyddom fod sylfeini llwyddiant economaidd yn dibynnu ar berfformiad ein system addysg a sgiliau, ac ar ansawdd y seilwaith sy'n cefnogi'r economi, gan gynnwys cyllid a chymorth i fusnesau, trafnidiaeth effeithiol, maes tai a chydweithio cryf rhwng partneriaid rhanbarthol yn y sector cyhoeddus.

Wrth inni fyw yn hirach ac wrth i'n heconomi newid yn sgil newidiadau i dechnoleg a newidiadau byd-eang, bydd angen inni helpu pobl i gyflawni eu potensial, gan sicrhau bod y gweithlu wedi cael yr addysg iawn. Drwy feithrin yr amgylchiadau i hybu arloesi a thwf, gall arloesi ym maes cynnyrch a phrosesau helpu pobl i roi syniadau arloesol ar waith drwy'r economi gyfan. I greu cymdeithas arloesol, rydym am bontio'r bwlch rhwng darparwyr addysg a'r economi ehangach, a gweithio gyda'n sefydliadau a'n partneriaid economaidd ehangach i greu cysylltiadau cryf rhwng y maes ymchwil a'r broses o roi ymchwil ar waith.

# 11. Hyrwyddo a meithrin diwylliant a threftadaeth Cymru




## Nodau Llesiant


• Cymru lewyrchus • Cymru sy'n fwy cyfartal • Cymru o gymunedau cydlynus
• Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu • Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Strategaethau

• Ffyniannus a Diogel • Uchelgais a Dysgu • Unedig a Chysylltiedig

## Sail resymegol

Mae diwylliant a threftadaeth yn ffynhonnell hunaniaeth ac arwahanrwydd fel cenedl, a cheir tystiolaeth gynyddol o'r manteision ehangach y gall cymdeithas eu cael yn sgil diwylliant. Mae diwylliant yn hwb i'n heconomi a'n proffil rhyngwladol, yn cyfrannu at iechyd a lles, yn hyrwyddo amrywiaeth ac arloesi, ac yn gymorth i addysgu ein pobl ifanc. Er mwyn creu, meithrin a chefnogi diwylliant bywiog, mae angen dull cynaliadwy er mwyn ymateb i effeithiau cyni ac ansicrwydd, gan gofleidio'r cyfleoedd sydd ar gael.




# 12. Rheoli, defnyddio a gwella adnoddau naturiol Cymru i gefnogi llesiant hirdymor

## Nodau Llesiant


• Cymru lewyrchus • Cymru gydnerth • Cymru iachach • Cymru o gymunedau cydlynus
• Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Strategaethau

• Ffyniannus a Diogel, Iach ac Egnïol • Uchelgais a Dysgu • Unedig a Chysylltiedig

## Sail resymegol

Nid yn unig y mae adnoddau naturiol Cymru yn adnodd gwerthfawr, ond maent hefyd yn dod â manteision hanfodol yn eu sgil. Mae'r rhain yn cynnwys manteision sy'n amrywio o'r aer a anadlwn i'r bwyd a fwytawn; o'r tir a ffermiwn neu a ddatblygwn i'r moroedd a bysgotwn ac i'r dŵr a yfwn. Mae adnoddau naturiol Cymru yn sylfaenol bwysig i lwyddiant yr economi yn y tymor hir, fel y maent i ansawdd ein hamgylchedd naturiol ac iechyd a llesiant ein cymunedau. Mae cynnal a chryfhau amgylchedd naturiol cadarn ac ynddo fioamrywiaeth, ynghyd â systemau iach, yn helpu pobl, yn cyfrannu at iechyd, yn hwb i economi gynaliadwy ac yn creu gwydnwch ecolegol a'r gallu i addasu i newid.




# 13. Hwyluso gwasanaethau cyhoeddus safonol, ymatebol a mwy integredig, yn enwedig i'r rheini sydd eu hangen fwyaf, gan drin y dinesydd fel partner cydradd

## Nodau Llesiant

• Cymru lewyrchus • Cymru gydnerth • Cymru iachach • Cymru sy'n fwy cyfartal
• Cymru o gymunedau cydlynus • Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
• Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang


## Strategaethau

• Ffyniannus a Diogel • Uchelgais a Dysgu • Unedig a Chysylltiedig

## Sail resymegol

Er mwyn cyflawni'n huchelgais i gael gwasanaethau cynaliadwy yn y dyfodol, bydd angen gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u hintegreiddio'n well, a'r rheini'n gwella gallu pobl, sefydliadau, y seilwaith ac amgylchedd Cymru i addasu i ergydion fel dirwasgiad neu heriau mwy graddol yn y tymor hwy, fel newid yn yr hinsawdd. I roi'r newid hwn ar waith, mae angen gwasanaethau effeithiol ac effeithlon sy'n diwallu anghenion pobl pan fydd angen y gwasanaethau hynny arnynt. Mae hyn yn golygu rheoli'n well sut y bydd pobl yn ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus ac yn symud rhyngddynt, yn aml wrth gyrraedd cerrig milltir o ran oed, er mwyn sicrhau parhad ac osgoi diffyg cysylltiad rhwng gofal a'i ganlyniadau.

Er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn gadarn ac yn diwallu'r anghenion yn y dyfodol, mae angen adeiladu ar gryfderau pobl, gan drin pobl sy'n defnyddio'n gwasanaethau fel partneriaid cyfartal wrth wella'r gwasanaethau hynny, gan eu hannog i fod yn annibynnol ac osgoi ymyrryd lle nad oes rhaid.




# 14. Sefydlu Cymru fel gwlad uchelgeisiol sy'n edrych tuag allan ac sy'n ymwneud â'r byd ehangach

## Nodau Llesiant

• Cymru lewyrchus • Cymru gydnerth • Cymru iachach
• Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu • Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Strategaethau

• Ffyniannus a Diogel • Unedig a Chysylltiedig

## Sail resymegol

Gwyddom fod ein safle yn y byd yn yr unfed ganrif ar hugain yn newid. Yn sgil yr ansicrwydd yn dilyn penderfyniad y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd, a hefyd wrth ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd sy'n dod yn sgil newidiadau fel globaleiddio, newid yn yr hinsawdd a thechnolegau newydd, mae gofyn bod yn eglur yn ein gwaith ac yn uchelgeisiol. Drwy adeiladu ar lwyddiant mewnfuddsoddi, drwy gefnogi economi arloesol sy'n edrych tuag allan, a thrwy gryfhau ein proffil rhyngwladol ar sail pa mor unigryw yw hunaniaeth a diwylliant Cymru, gall Cymru fod yn bartner rhyngwladol amlwg. Drwy feithrin cysylltiadau rhyngwladol ym maes addysg uwch ac addysg bellach, a thrwy hyrwyddo'r arferion gorau rhyngwladol ym maes gofal iechyd, mae Cymru'n parhau'n wlad uchelgeisiol sy'n edrych tuag allan ac yn ymwneud â'r byd ehangach.